



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Yr Adolygiad Gweinidogol o Chwarae: O Uchelgais i Weithredu

Adroddiad Terfynol – Chwefror 2025 i Mai 2026

Fersiwn i bobl ifanc



Helo

Mae chwarae'n bwerus. Does dim ots beth yw eich oedran, mae chwarae'n eich helpu i ddysgu, meithrin sgiliau newydd a magu hyder.

Mae'n rhoi cyfle i chi fod yn greadigol, yn chwilfrydig ac yn anturus.

Mae chwarae'n golygu datrys problemau, cysylltu syniadau a delio â heriau. Mae'n eich helpu i ddeall bod camgymeriadau... yn rhan o ddysgu.

Hefyd, rydych chi'n gwneud ffrindiau, yn dysgu deall pobl ac yn meithrin ymddiriedaeth.



Mae chwarae'n rhoi lle i chi ddelio â'ch emosiynau, gwneud synnwyr o'r byd a meithrin gwydnwch.

Ond yn fwy na dim... mae'n **HWYL!**



Mae Llywodraeth Cymru eisiau i bob plentyn a pherson ifanc gael llawer o gyfleoedd i chwarae.

Ein gweledigaeth: 'Cymru – Gwlad sy'n Creu Cyfle i Chwarae'



Mae gennych chi'r hawl i orffwys, ymlacio a chwarae!

Erthygl 31. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Ers yr adroddiad diwethaf



➤ Fe wnaethon ni weithio gydag ysgolion i roi mwy o gyfleoedd i blant chwarae. Mae hyn yn cynnwys chwarae ar ôl ysgol, sesiynau yn yr awyr agored a phrosiectau eraill.

➤ Rydyn ni wedi helpu i wneud mannau chwarae'n haws i bawb eu defnyddio, gan gynnwys llwybrau sy'n addas i gadeiriau olwyn, arwynebau gwell a mannau awyr agored dan orchudd.

➤ Rydyn ni wedi sicrhau bod cyllid ar gael i gefnogi chwarae yng Nghymru.

➤ Fe wnaethon ni wrando ar fwy o blant a phobl ifanc am sut beth yw chwarae mewn gwirionedd yn y llefydd lle maen nhw'n byw. Mae'r hyn a ddywedon nhw wrthym ni bellach yn helpu i lunio cymunedau a chyfleoedd chwarae.

➤ Fe wnaethon ni weithio gyda phartneriaid i wneud chwarae'n fwy diogel drwy helpu clybiau i gadw plant yn ddiogel.

➤ Fe wnaethon ni helpu i sicrhau bod tiroedd ysgolion yn cael eu defnyddio ar gyfer chwarae y tu allan i oriau ysgol.

➤ Rydyn ni wedi codi ymwybyddiaeth ac wedi helpu mwy o sefydliadau a gwasanaethau i feddwl am hawl plant i chwarae wrth wneud penderfyniadau.



➤ Fe wnaethon ni gefnogi prosiectau i wneud trefi a chymunedau'n fwy chwareus. Mae hyn yn cynnwys mannau i bobl ifanc, parciau sglefrio a mannau naturiol i chwarae.

➤ Fe wnaethon ni helpu i wella mannau chwarae ledled Cymru.

➤ Fe wnaethon ni fuddsoddi mewn mannau chwarae gwell mewn ysgolion a chymunedau, gan gynnwys podiau chwarae, pecynnau chwarae awyr agored, mannau chwarae naturiol a meysydd chwarae gwell.

➤ Mae arolygwyr wedi hyrwyddo chwarae o ansawdd da.

Enghreifftiau da o bob rhan o Gymru

1. Chwarae'n dylanwadu ar benderfyniadau mwy

Gogledd Cymru

Mae Uwch Swyddog Chwarae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynrychioli chwarae ar Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Ledled Gogledd Cymru, mae chwarae bellach yn cael ei drafod ochr yn ochr ag iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg, yn hytrach nag ar wahân.

Mae yna hefyd le newydd lle gall teuluoedd a gweithwyr proffesiynol ddod o hyd i gyfleoedd chwarae yn agos atyn nhw.

★ **Neges syml:** Mae pobl sy'n deall chwarae yn rhan o'r penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a theuluoedd.

2. Creu llefydd gwell i chwarae Casnewydd

Mae Casnewydd wedi gwella 35 o ardaloedd chwarae a 13 o safleoedd gemau a chwaraeon.

Ym Mhillgwenlly, edrychodd plant a theuluoedd ar Faes Hamdden Mendalgief a dweud: gallai'r lle hwn fod yn llawer gwell.

Felly, fe newidiodd — i fod yn fan gwyrdd, naturiol sydd wedi'i greu ar gyfer chwarae.

★ **Neges syml:** Mae plant a chymunedau'n gwybod sut i droi mannau yn llefydd gwell i chwarae.

3. Gwranddo ar blant am y llefydd lle maen nhw'n byw

Carmarthenshire

Cafodd plant rhwng 9 a 14 oed eu holi am sut beth oedd chwarae yn yr awyr agored yn eu hardal.

Fe wnaethon nhw siarad am gael llai o gyfleoedd i chwarae ac am bryderon ynghylch teimlo'n ddiogel pan oedden nhw allan. Gwrandawodd yr oedolion.

Ac mae hynny eisoes yn newid eu cymuned: mae coed newydd, blodau gwyllt a mannau chwarae naturiol yn cael eu creu yn y mannau gwyrdd gerllaw

★ **Neges syml:** Pan fydd plant yn cael eu cynnwys ac oedolion yn gwranddo, gall cymunedau fod yn fwy diogel ac yn well i bawb.



Enghreifftiau da o bob rhan o Gymru

4. Gwneud lleoliadau chwarae'n fwy diogel

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Creodd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs Wiriad Iechyd Diogelu. Mae'n ffordd syml i glybiau weld pa mor dda maen nhw'n cadw plant yn ddiogel, a lle gallan nhw wneud yn well.

Mae mwy na 1,871 o blant eisoes yn elwa ohono.

★ **Neges syml:** Mae gan fwy o glybiau gymorth ymarferol i helpu i gadw plant yn fwy diogel.

5. Hyrwyddwyr Chwarae

Arolygiaeth Gofal Cymru

Mae'r adroddiad yn cynnwys stori Hyrwyddwr Chwarae sy'n gweithio yn Arolygiaeth Gofal Cymru.

Cawson nhw hyfforddiant arbenigol am chwarae ac maen nhw bellach yn helpu arolygwyr eraill i ddeall sut beth yw chwarae o ansawdd da.

★ **Neges syml:** Mae'r bobl sy'n arolygu lleoliadau chwarae yn gwybod am hawl plant i chwarae a sut beth ddylai chwarae da fod.

6. Ysgolion sy'n Gyfeillgar i Chwarae

Bro Morgannwg

Ym Mro Morgannwg, mae 5 ysgol — 4 ysgol gynradd ac 1 ysgol uwchradd — yn rhoi cynnig ar rywbeth newydd.

Mae staff wedi cael hyfforddiant, mae teuluoedd yn ymuno â sesiynau chwarae, ac mae amser cinio bellach yn cynnwys chwarae gyda rhannau rhydd ac amser yn yr awyr agored.

Mae rhai ysgolion wedi mynd ymhellach, gyda "ciwbiau chwarae" — blychau sy'n llawn pethau y gall plant eu defnyddio i adeiladu a chwarae, pryd bynnag maen nhw eisiau, yn ystod oriau ysgol a'r tu allan iddyn nhw.

★ **Neges syml:** Mae gan ysgolion ffyrdd ymarferol o roi mwy o amser, lle a rhyddid i blant chwarae.

Sir Ddinbych, Ynys Môn a Gwynedd

Mae'r siroedd hyn wedi buddsoddi mewn podiau chwarae i greu mwy o gyfleoedd i chwarae yn eu hysgolion a'u cymunedau.

Mae podiau chwarae'n llawn rhannau rhydd y gall plant eu symud, adeiladu gyda nhw a'u defnyddio yn eu ffordd eu hunain.

★ **Neges syml:** Mae plant yn cael mwy o gyfleoedd i ddewis sut maen nhw'n chwarae.



Beth sy'n digwydd nawr

Pethau y byddwn yn parhau i edrych arnyn nhw:

- sut gall mwy o sefydliadau, fel gwasanaethau iechyd a chynghorau cymuned, helpu i wella chwarae
- gwneud yn siŵr bod chwarae'n rhan o'r ffordd mae llefydd a chymunedau'n cael eu cynllunio, eu dylunio a'u hadeiladu
- gwneud yn siŵr bod gan glybiau a gwasanaethau'r gwiriadau cywir ar waith i helpu i gadw plant yn ddiogel
- gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn rhan o'r penderfyniadau am ble, pryd a sut maen nhw'n chwarae.

Byddwn yn parhau i weithio tuag at greu...

'Cymru – Gwlad sy'n Creu Cyfle i Chwarae'

Diolch i bawb a gymerodd ran yn yr adolygiad hwn ac a helpodd i wella chwarae ledled Cymru!

